



Adroddiad Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Comisiynydd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn falch o gyflwyno ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 i'r Comisiynydd fel sy'n ofynnol dan ei Gylch Gorchwyl.

Aelodaeth

Yn ystod y flwyddyn roedd y Pwyllgor yn cynnwys:

Steve Harford – Cadeirydd
Mutale Merrill

Phil Davy
Steve Milsom

Taliadau

Fel rhan o'u telerau ac amodau, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg daliadau am 6 diwrnod y flwyddyn ar gyfradd ddyddiol o £350 a £400 i'r Cadeirydd.

Cafodd eu costau teithio a chynhaliaeth hefyd eu had-dalu i'r aelodau, yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiwn.

Roedd gan yr aelodau hawl hefyd i ad-daliadau am unrhyw waith a oedd yn ychwanegol i'w cyfrifoldebau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar yr un gyfradd ddyddiol.

Amllder y Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bob chwarter yn ystod y flwyddyn ar y dyddiadau canlynol:

9 Mai 2017	pob aelod yn bresennol
25 Gorffennaf 2017	pob aelod yn bresennol
31 Hydref 2017	pob aelod yn bresennol
13 Chwefror 2018	pob aelod yn bresennol

Cyfnod yn y Swydd

Penodwyd Phil Davy yn Aelod o'r Pwyllgor am gyfnod o 4 blynedd o 1 Ebrill 2017.

Prif Weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cylch Gorchwyl

Nid oedd angen unrhyw newid i Gylch Gorchwyl y pwyllgor yn ystod 2017/18. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Comisiynydd

www.olderpeoplewales.com.

Adolygu effeithlonrwydd y Pwyllgor

Yn ystod 2017-18, gofynnodd y Cadeirydd i archwilydd mewnol y Comisiynydd (Deloitte) gynnal adolygiad annibynnol o effeithlonrwydd y Pwyllgor gan ddefnyddio Rhestr Wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys trafodaethau gyda'r Comisiynydd ac aelodau'r Pwyllgor.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Chwefror 2018, a chanfu fod cydymffurfio da â'r rhestr wirio ar y cyfan, gan dderbyn nad oedd rhai meysydd yn berthnasol i amgylchiadau penodol y pwyllgor hwn.

Yr unig feysydd i'w gwella a ganfuwyd oedd:

- 1) Treulio ychydig mwy o amser ar risgiau allweddol yn hytrach na materion gweithredol;
- 2) Parhau i adolygu'r cydbwysedd rhwng cyfaill beirniadol a chraffu; a
- 3) Bod yn ymwybodol o fanylu gormod mewn rhai meysydd, sy'n gysylltiedig â phwynt un ar gadw'r ffocws ar risg strategol.

O'r herwydd, am 2017-18, mae'r Pwyllgor unwaith eto wedi dod i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithlon gyda thystiolaeth o gydymffurfio da â Rhestr Wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Effeithlonrwydd Pwyllgorau Archwilio.

Materion yn ymwneud ag archwilio

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cwrdd yn breifat gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn flynyddol. Eleni, bu'r cyfarfod ar 9 Mai 2017 ac ni chodwyd unrhyw faterion a oedd yn achosi pryder.

Parhaodd Deloitte i fod yn archwilwyr mewnol y Comisiynydd, ac fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo ei gynllun ar gyfer 2017-18 ar 25 Gorffennaf 2017.

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr adroddiadau a ganlyn gan Deloitte:

Cyflogres Allanol; trefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ac adnoddau dynol

Roedd yn bleser gan y Pwyllgor nodi'r sicrwydd sylweddol a roddwyd i'r adolygiad hwn. Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid a Risg am eu gwaith yn cefnogi'r adolygiad hwn.

Cynllunio Prosiectau

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Adroddiad Cynghorol hwn.

Hapwirio Systemau Ariannol

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr adroddiad hwn wedi derbyn Sicrwydd Sylweddol.

Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol 2016-17

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi y dyfarnwyd sicrwydd sylweddol i'r adroddiad hwn, a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

Cyfrifon Blynyddol ac Archwiliad Allanol

Cyfrifon 2016-17

Yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf 2017, bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried cyfrifon drafft 2016-17. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamed ar y cyfrifon ac fe'u cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Awst 2017.

Strategaeth Archwilio Allanol ar gyfer Cyfrifon 2017-18

Yn ei gyfarfod yn Chwefror 2018, bu'r Pwyllgor yn ystyried strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer archwilio cyfrifon 2017-18. Er mai mater i'r Swyddfa Archwilio oedd dull yr archwiliad, roedd y Pwyllgor yn cytuno â'i asesiad o'r risgiau ac o ddull yr archwiliad.

Protocol Cydweithio wrth Archwilio - Archwilwyr Mewnol ac Allanol

Cafodd y protocol ar y cyd ei adolygu yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2017. Nododd y Pwyllgor bod yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cydweithio'n dda ac nad oedd agen unrhyw ddiwygio sylweddol ar y protocol ar hyn y bryd.

Gwerthuso gwaith yr archwiliad mewnol ac allanol

Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiadau o waith Deloitte a swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

Yr oedd cydnabyddiaeth y bu rhai newidiadau sylweddol yn y tîm archwilio mewnol. Yr oedd y Pwyllgor yn dymuno nodi bod y tîm newydd wedi datblygu'n gyflym eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd cymhleth gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Yr oedd y Pwyllgor yn falch o adrodd bod gan Swyddfa Archwilio Cymru agwedd gydweithredol a chynorthwyol tuag at waith archwilio a bod y berthynas dda sydd ganddynt yn ychwanegu gwerth gwirioneddol at waith y Comisiynydd.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r archwilwyr mewnol ac allanol am eu gwaith a'u cymorth parhaus.

Rheoli Risg

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiweddariadau rheolaidd am y prosesau sydd ar waith i reoli risg yn y Comisiwn.

Hefyd, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau am nifer yr achosion o gwynion, damweiniau a digwyddiadau (gan gynnwys unrhyw faterion o ran diogelwch data) fel dangosyddion posibl o'r modd y mae risg yn cael ei rheoli yn y Comisiwn.

Datganiad Llywodraethu 2017-18

Mae'r Pwyllgor wedi adolygu Datganiad Llywodraethu arfaethedig y Swyddog Cyfrifyddu am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ac mae'n fodlon ei fod yn gyflawn ac yn cyflwyno adlewyrchiad cywir o'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg am y flwyddyn a'r materion allweddol sydd wedi codi.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cafodd Adroddiad Blynyddol 2015-16 ei nodi yng nghyfarfod mis Mai 2017.

Polisïau

Fe wnaeth y Pwyllgor nodi'r polisïau canlynol a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn:

- (i) Cwynion
- (ii) Gwrth-dwyll ac Atal Gwyngalchu Arian
- (iii) Archebu Nwyddau a Gwasanaethau
- (iv) Teithio a Chynhaliaeth
- (v) Rheoli Risg
- (vi) Strategaeth Cyllid Wrth Gefn

Dysgu a Datblygu

Yn ystod y flwyddyn, bu aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg mewn un sesiwn ddatblygu gan dderbyn diweddariadau'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn cynnwys:

- Adolygiad o Gartrefi Gofal gwaith dilynol
- Strategaeth Cyllid Wrth Gefn y Comisiynydd
- Cynllun ariannol 3 blynedd y Comisiynydd
- Adroddiadau cynnydd chwarterol yn erbyn Cynllun Busnes y Comisiynydd ar gyfer 2017/18
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
- Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Yr oedd pob aelod yn bresennol yn niwrnod hyfforddi Pwyllgor Archwilio Effeithlon y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ym mis Hydref 2017.

Bu'r Cadeirydd yn bresennol yng Ngweithdy Cadeiryddion Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg ar 3 Hydref.

Ym Mai 2017 aeth y Cadeirydd a'r Comisiynydd i Weithdy dan arweiniad Deloitte ar seiber ddiogelwch, y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a sicrhau risg.

Gweithgareddau eraill

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd Aelodau gyngor i'r Comisiynydd ac aelodau o'i thîm ar amrywiaeth o faterion yn ychwanegol at eu gwaith Pwyllgor ffurfiol. Ymhob achos, roedd hyn yn unol â thelerau eu penodiad ac wedi'i ddatgan a'i gofnodi'n briodol yng nghofnodion y Pwyllgor.

O dan y gyfraith, mae'r Comisiynydd yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Pwyllgor o'r farn fod diffyg bwrdd gweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel arfer wedi'i ddewis ohono) yn gallu creu "bwllch gwybodaeth" i'r Aelodau oherwydd nad oes ganddynt gyfrifoldebau a goruchwyliaeth ehangach. Mae'r Pwyllgor wedi goresgyn y bwllch hwn yn rhannol oherwydd eu gwaith cyngori ychwanegol a hefyd drwy drafodaethau ychwanegol gyda'r Comisiynydd a chyflwyniadau ganddi hi a staff uwch fel "ychwanegiadau" i gyfarfodydd y Pwyllgor ac yn ystod diwrnodau datblygu. Mae'r Comisiynydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy e-bost am faterion allweddol wrth iddynt godi.

Casgliad

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau gwaith archwilio mewnol ac allanol, gall y Pwyllgor ddarparu sicrwydd uchel i'r Swyddog Cyfrifyddu fod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Deloitte am eu gwaith yn ymgymryd â'r trefniadau archwilio mewnol ar ran y Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Swyddfa Archwilio Cymru am ei gwaith ar y cyfrifon blynyddol.

Ni fyddai modd i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol heb gymorth a chefnogaeth y Comisiynydd sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa. Mae'r Pwyllgor, wrth gwrs, yn ddiolchgar iawn iddi am hyn, a hoffai hefyd diolch i'r holl staff sydd wedi rhoi o'u hamser i ymwneud â'r Pwyllgor a chefnogi ei waith.

Hoffai'r Pwyllgor fachu ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Comisiynydd am ei chyfraniad tuag at wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru yn ystod 6 blynedd ei phenodiad. Mae'r ffordd y caiff busnes ei gynnal gydol y Comisiwn, gan gynnwys y Pwyllgor hwn, o ganlyniad i'w harweiniad a'i gweledigaeth hi, ei natur agored a'i pharodrwydd i ymgysylltu. Ni fyddai modd i'r Pwyllgor arfer ei ddyletswyddau heb ddull gweithredu cadarnhaol o'r fath.

I gloi, ni fyddai'r Pwyllgor yn gallu gweithredu'n effeithiol heb gymorth ei ysgrifennydd, Sue Hayward. Mae'r Pwyllgor yn ddyledus iddi am ei chefnogaeth ysgrifenyddol amhrisiadwy gydol y flwyddyn.

STEVE HARFORD

Cadeirydd

Ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg